

# EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 123 – Llefaru Unigol Bl 2 ac iau  
Pysgota Sêr – Anni Llŷn



Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

## PYSGOTA SÊR

Rwyf i am fynd am dro  
mewn roced felen fawr,  
a glanio ar y lleuad  
i bysgota am ryw awr.

Mae gen i offer arbennig –  
gwialen sydd yn canu.  
A gan fod sêr yn hoffi dawnsio,  
bydd y nodau yn eu denu.

Fe fydda i'n ofalus iawn  
wrth fachu seren fach.  
Rhoi cwtsh a'i rhoi'n ddiogel  
i orffwys yn fy sach.

Fe gaiff y seren gwmni  
sêr eraill a chael sbri  
yn dawnsio'n hapus gyda'r nos  
ar fy mhyjamas i.

*Gyda chaniatâd Anni Llŷn*